

DAVIES, WALTER ('Gwallter Mechain'; 1761 - 1849), offeiriad, bardd, hynafiaethydd, a beirniad

Enw: Walter Davies

Ffugenw: Gwallter Mechain

Dyddiad geni: 1761

Dyddiad marw: 1849

Rhiant: William Davies

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: offeiriad, bardd, hynafiaethydd, a beirniad

Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: John Thomas Owen

Ganwyd 15 Gorffennaf 1761 yn y Wern, yn agos i Domen y Castell, Llanfechain, Sir Drefaldwyn. Hawliai berthynas ar ochr ei dad, William Davies, â theuluoedd urddasol Nant-yr-erw-haidd yn Edeirnion a Chyffiniaid Trebrys. Wedi gadael ysgol y pentre'n 12 oed dysgodd grefft cowper, a daeth yn feistr ar wneud 'picyn.' Ymunodd yn fore â'r frawdoliaeth farddol, a rhoes yr eisteddfod gyfle iddo gystadlu. Daeth ei lwyddiant eisteddfodol ag ef i sylw gwyr pwysig fel 'Owain Myfyr' a William Owen Pughe, a thrwy eu hanogaeth hwy yr ymaelododd yn Neuadd S. Alban, Rhydychen, yn 1791; yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt, y cymerodd ei radd. Bu gan yr eisteddfod afael anghyffredin arno ar hyd ei oes, a phraw pendant o hynny oedd iddo anfon o fewn chwe mis i'w farw - yn hen wr 88 oed - awdl ar 'Y Greadigaeth' i eisteddfod Aberffraw yn 1849.

Wedi derbyn ei radd yn 1795 aeth yn gurad i Feifod, ac wedi hynny i Ysbyty Ifan. Yno priododd weddw Rice Price, Rhosbrynba, a bu iddynt bedwar plentyn. Cafodd fywoliaeth Llanwyddelan yn 1803, a pherigloraeth Manafon yn 1807; ym Manafon y gwnaeth gyfeillion â'r **Parch. John Jenkins** ('Ifor Ceri') a Fychaniaid Penmaen Dyfi. Yn 1837 derbyniodd fywoliaeth Llanrhaiadr-ym-Mochnant, ac yno y treuliodd weddill ei oes.

Bu cysylltiad agos rhyngddo a chymdeithasau llengar Llundain, yn enwedig y Gwyneddigion, a bu'n gyfrifol, gyda chymorth **David Rowland**, Llanddewibrefi, am gychwyn y cymdeithasau taleithiol. Roedd hefyd yn gystadleuydd brwd yn eisteddfodau'r cymdeithasau hyn; ef ddaeth i'r brig yn y gyntaf ohonynt yng Nghaerfyrddin yn 1819, pan wobrwyydd ef ag ariandlws yr eisteddfod am ei 'Awdl, ar farwolaeth y godidog flaeawr milwraidd Syr Thomas Picton, marchog urddasol o dalaith Dyfed yn neheubarth Cymru, Yr hwn a laddwyd ym mrig y Fuddugoliaeth ym Mrwydr waedlyd Waterlŵ, Mehefin 18, 1815' (Canodd Gwallter Mechain gerdd rydd i anrhydeddu **Picton**, yn ogystal, 'ar ddyuniad **J[ohn] J[enkins]**', ac fe'i cynhwyswyd wedi'i gosod ar alaw o Geredigion yng nghasgliad y deisyfydd, '**Melus-seiniau Cymru**' (1817-25).)

Yn ystod ei oes faith cyhoeddwyd y gweithiau canlynol o'i waith: *Diwygiad neu Ddinystr ...*, cyfieithiad o *Reform or Ruin* (T. Bowdler), 1798, *Eglur Olygiad o'r Grefydd Gristionogol ac o Hanesyddiaeth (Histori) cyn belled ag y perthyn i ddechreuad Cristionogaeth, ac i'w chynyddiad hyd yr amser presenol*, cyfieithiad o waith Thomas Gisborne, 1801; *General view of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales ... Drawn up for the consideration of the Board of Agriculture and Internal Improvement* (London, 1813); *General view of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales ... Drawn up for the consideration of the Board of Agriculture and Internal Improvement (Vol. I., Vol. II.)* (London, 1815). Golygodd waith **Huw Morus**, 1823, a **Lewis Glyn Cothi** (gyda **John Jones**, 'Tegid'). Cyhoeddodd hefyd, 1827, adargraffiad o drosiad mydryddol **William Middleton** ('Gwilym Canoldref') o'r Salmu.

Yr oedd 'Gwallter Mechain' yn wr o ddiddordeb eang anghyffredin. Astudiodd bynciau meddygol, seryddiaeth, llenyddiaeth hen a diweddar, ynghyd a llenyddiaeth gyfoes y Saeson. Chwiliodd achau teuluoedd pendefigaidd fel yr Herbertiaid, a rhoes wasanaeth gwerthfawr i'r eisteddfod a'r cymdeithasau gan eu beirniadu ar adegau. Yn sicr, yr oedd 'Gwallter Mechain' yn ei oes yn un o gymwynaswyr mawr Cymru. Er nad oes ar ei farddoniaeth fawr gamp, eto enillodd iddo'i hun le amlwg fel hynafiaethydd, beirniad, a chasglwr llyfrau. Y mae dros 300 o'i lawysgrifau yn L.L.G.C. Bu farw 5 Rhagfyr 1849.

Awduron

John Thomas Owen

Diwygiwyd gan y tÃ@m golygyddol, 2024

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

D. Silvan Evans (gol.), *Gwaith y Parch. Walter Davies (Gwallter Mechain)* (Caerfyrddin 1866-1868)

Archifau LIGC: **NLW MSS 1641-1812, 1950-52**

T. Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907)

Awen Dyfed: sef, awdlau ac englynion a ddanfonwyd i Eisteddfod Caerfyrddin, Gorph.8, 1819; at y rhai y 'chwanegwyd hanes yr eisteddfod (Caerfyrddin 1822), tt. 1-10

John Jenkins, **NLW MS 1940iA: Melus-seiniau Cymru**

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Gwallter Mechain

Gweithiau

Walter Davies, General view of the agriculture and domestic economy of South Wales containing the counties of Brecon, Caermarthen, Cardigan, Glamorgan, Pembroke, Radnor: drawn up for the consideration of the Board of Agriculture and Internal Improvement: Vol. I

Walter Davies, General view of the agriculture and domestic economy of South Wales containing the counties of Brecon, Caermarthen, Cardigan, Glamorgan, Pembroke, Radnor: drawn up for the consideration of the Board of Agriculture and Internal Improvement: Vol. II

Walter Davies, General view of the agriculture and domestic economy of North Wales containing the counties of Anglesey, Caernarvon, Denbigh, Flint, Meirionydd, Montgomery: drawn up and published by order of the Board of Agriculture and Internal Improvement

Walter Davies, *Rhyddid* (Llundain 1791)

Gwyneddigion, *Cyhoeddiadau Cymdeithas y Gwyneddigion, yn Llundain, am y flwyddyn, 1800*(Llundain 1801)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 11301942

Wikidata: Q13635559

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Owen, J. T., (1953). DAVIES, WALTER ('Gwallter Mechain'; 1761 - 1849), offeiriad, bardd, hynafiaethydd, a beirniad. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-WAL-1761>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government